# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 10 Hydref 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 10 Hydref 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 17 Hydref 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC** Pryniant Rhiwen, Deiniolen, Caernarfon, Gwynedd LL55 3NF

**PENDERFYNIAD –**

Prynu 'r eiddo adnabyddir fel Rhiwen, Deiniolen ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i blant, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 10/10/2024 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Pryniant Rhiwen, Deiniolen, Caernarfon, Gwynedd LL55 3NF

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu ‘r eiddo adnabyddir fel Rhiwen, Deiniolen ar gyfer cyfarch gofyn yr Adran Plant am ddarpariaeth Tai gofal i blant, a hynny ar delerau ac amodau i’w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi’r Adran Plant i wireddu darpariaeth Cartrefi Bychan yn unol a’r Flaenoriaeth Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo’r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae’r Cyngor yn awyddus i wella profiadau plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir er mwyn derbyn cartref a gofal addas. Mae’r Adran Plant yn awyddus i ddatblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

Mae Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan yn faes blaenoriaeth yn unol a Chynllun y Cyngor. Mae’r datblygiad yma yn rhan o strategaeth i ddatblygu dewis lleol o leoliadau preswyl i blant Gwynedd ac yn cyd-fynd gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat wrth ddarparu cartrefi i blant sy’n derbyn gofal.

Mae Rhiwen wedi ei adnabod fel eiddo addas ar gyfer ei drosi'n gartref bychan gan ystyried ffactorau megis ei leoliad, maint a gosodiad.
Fel trefniant interim, bydd y pryniant i gael ei ariannu o raglen gyfalaf yr Adran Plant, ac mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan Llywodraeth Cymru y bydd costau'r pryniant i gael ei ad-dalu o gronfa Tai Gyda Gofal. Mae ymrwymiad hefyd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru i gyfarch y costau addasu o'r gronfa hono.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.


**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – **Dewi Morgan –** "Rwyf yn fodlon fod cynnwys y daflen yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa o safbwynt y trefniadau ariannol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir"

**Dirprwy Swyddog Monitro** – **Siôn Huws** – "Mae'r pryniant yn rhan o brosiect sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Rwyf yn fodlon yda phrioodldeb y penderfyniad a geisir."

**Aelod/au Lleol – Cynghorydd Elfed Williams** – "Deallaf fod y Cyngor yn awyddus i wella profiadau plant yng Ngwynedd ac rwyf yn cytuno bod angen dewis lleoliad call a diogel i ddarparu llety i unigolion mewn sefyllfaoedd anffodus a bregus. Tra fy mod yn cytuno bod angen darparu gofal addas i blant, mae gennyf ambell i bryder ynglŷn â sefyllfa pentref Deiniolen, a'r nifer o brosiectau a chanolfannau sy'n cael eu lleoli yn y pentref."




# Rhiwen, Deiniolen

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd